# CANLLAW GWYBODAETH I YMWELWYR

**Dyddiad:** Dydd Llun 27 a dydd Mawrth 28 Ebrill 2026

**Lleoliad: Canolfan Gynadledda Ryngwladol Cymru**

UCAS DISCOVERY UK TOUR



# CYRRAEDD YMA

UCAS

## Ydych chi’n teithio mewn car neu ar fws?

Cyfeiriad y Lleoliad: Canolfan Gynadledda Ryngwladol Cymru, Coedwig Coldra, Casnewydd, De Cymru, NP18 1DE. Mae’r lleoliad ychydig oddi ar gyffordd 24 yr M4, ac mae arwyddion clir iddo. Os ydych yn defnyddio system llywio lloeren, defnyddiwch y cod post NP18 1DE neu'r lleoliad What3Words location yma. I gael rhagor o gyfarwyddiadau, ewch i wefan y lleoliad yma.


## Ble alla i barcio fy nghar?

Mae maes parcio ar y safle gyda digon o lefydd ar gael (uchafswm uchder o 2.1m). Dilynwch gyfarwyddiadau’r stiwardiaid traffig pan fyddwch yn cyrraedd. Sylwch fod rhaid talu am barcio ac mae Canolfan Gynadledda Ryngwladol Cymru yn lleoliad heb arian parod.

| | |
|---|---|
| 0 – 1 awr | Am ddim |
| 1 – 5 awr | £7.00 |
| 5 – 8 awr | £12.00 |
| 8 – 12 awr | £16.00 |
| 12 – 24 awr | £20.00 |

Codir tâl parcio ar ddeiliaid bathodyn glas.

Gallwch archebu mannau parcio ymlaen llaw cyn y digwyddiad neu dalu ar y diwrnod. Ewch i wefan y lleoliad yma i gael rhagor o wybodaeth.



# CYRRAEDD YMA

UCAS

## Ble alla i barcio bws neu fws mini?

**Sylwch nad oes lle i fysiau barcio ar y safle.** Os ydych chi'n teithio mewn bws mini hunan-yrru, mae nifer cyfyngedig o lefydd parcio ar gael ar sail y cyntaf i'r felin, dilynwch gyfarwyddiadau'r stiwardiaid traffig ar y safle.

Ar gyfer gollwng a chasglu, bydd bysiau'n dod i mewn drwy'r brif fynedfa ac yn cael eu cyfeirio at fan gollwng a chasglu'r bysiau. Ar ôl i'r myfyrwyr adael, bydd y bysiau'n gadael ac yn dychwelyd drwy'r un broses i gasglu'r grŵp. Byddwn yn anfon pasys bysiau wythnos cyn y digwyddiad. Gwnewch yn siŵr eich bod yn dangos y pas yn y ffenestr flaen pan fydd y bws ar y safle, er mwyn helpu'r tîm traffig.

Oherwydd nifer yr ymwelwyr a ddisgwylir, ni ddylai bysiau gyrraedd yn gynharach na 15 munud cyn yr amser a nodir ar eich tocyn digwyddiad. Pan fyddwch yn barod i adael yr arddangosfa, casglwch holl aelodau'r grŵp at ei gilydd cyn mynd yn ôl i'r man casglu'r bysiau. Oherwydd y nifer fawr o fysiau, mae'n hanfodol bod cyfarwyddiadau'r stiwardiaid traffig yn cael eu dilyn bob amser.

## Teithio ar drên?

Mae gorsaf drenau Casnewydd oddeutu 12 munud mewn car. Ystyriwch archebu tacsi ymlaen llaw yn ôl yr angen gan nad oes safle tacsis o fewn pellter cerdded i'r lleoliad.

Mae rhagor o wybodaeth am wasanaethau trên ar gael yn www.nationalrail.co.uk

# PAN FYDDWCH CHI YMA

UCAS

## Pan fyddwch chi'n cyrraedd

Ar ôl cyrraedd, ewch i **brif fynedfa Canolfan Gynadledda Ryngwladol Cymru.**

Gwnewch yn siŵr bod eich tocyn yn barod i'w sganio ar ôl cyrraedd (tocyn digidol neu dewch â chopi wedi'i argraffu). Os oes angen unrhyw gymorth arnoch wrth gofrestru, ewch i ddesg gofrestru'r digwyddiad yn y cyntedd.

Mae eich tocyn arddangos yn bersonol i chi, ac ni ddylid ei rhannu gydag aelodau eraill o'r grŵp gan y gallai hynny beryglu diogelwch eich data.

Er mwyn cydymffurfio â'r rheoliadau diogelu data, mae'n rhaid i unigolion yn ein harddangosfeydd ddefnyddio eu tocyn eu hunain – rhaid gwneud hynny wrth fynd i mewn, ac wrth ymweld â stondinau arddangoswyr. Gofynnir i unrhyw un y canfyddir eu bod yn torri'r rheolau adael y digwyddiad ac ail-gofrestru os ydyn nhw'n dymuno dod yn ôl i mewn.

Cofiwch y gallai'r lleoliad gynnal archwiliad ar hap ohonoch chi a'ch bagiau. Diolch i chi am eich amynedd yn ystod y cyfnod hwn. Peidiwch â dod ag unrhyw eitemau miniog (gan gynnwys cwmpawdau a siswrn) i'r lleoliad. Bydd y staff diogelwch yn eu cymryd oddi arnoch, ac efallai na fyddwch yn gallu eu cael yn ôl.



# PAN FYDDWCH CHI YMA

UCAS

## WIFI

Mae rhwydwaith WiFi agored ar gael yn y digwyddiad hwn, ond ni ellir gwarantu cysylltiad dibynadwy.

Dewiswch Wifi Gwestai a llenwi'r ffurflen sylfaenol i gael mynediad.

## HYGYRCHEDD

Mae manylion llawn am hygyrchedd ar gael yma ar wefan y lleoliad.

Mae toiledau hygyrch ar gael ar bob lefel yn y lleoliad.

## Sgyrsiau'r Sesiwn Holi ac Ateb Fawr

Bydd sgyrsiau myfyrwyr yn cael eu cynnal drwy gydol y digwyddiad yn y brif neuadd a bydd arwyddion i ddangos sut i gyrraedd yno.

Mae rhaglen lawn o ddigwyddiadau ar gael ar dudalen we'r digwyddiad.



## ARLWYO

Bydd lluniaeth ar gael i ymwelwyr ei brynu yn y brif neuadd.

Mae lolfa'r arddangoswyr a'r athrawon ar y llawr 1af ac mae arwyddion i ddangos sut i gyrraedd yno. Cofiwch fod Canolfan Gynadledda Ryngwladol Cymru yn lleoliad heb arian parod.

Bydd ardal eistedd hefyd ar gyfer y rheini y byddai'n well ganddyn nhw ddod â phecyn bwyd gyda nhw

## STAFF Y DIGWYDDIAD

Os bydd gennych gwestiynau cyffredinol i'w gofyn yn ystod y digwyddiad (ee sut i gael hyd i'r toiledau), gofynnwch i unrhyw un o staff y digwyddiad a fydd yn gwisgo crysau-t â brand UCAS.

# GWYBODAETH RHAG OFN

UCAS

## TREFNWYR

Bydd trefnwyr y digwyddiad yn y lleoliad a gellir eu hadnabod yn eu crysau-t â brand UCAS. Os oes angen i chi siarad â'r trefnydd dros y ffôn cyn y digwyddiad, ffoniwch 01242 544 808.

Os oes gennych chi unrhyw bryderon diogelu yn ystod eich amser yn y digwyddiad, cysylltwch â'n pwynt cyswllt diogelu dynodedig, sef Hannah Tocknell 07833 237033.

## DAMWEINIAU A FU BRON Â DIGWYDD

Os byddwch chi'n cael damwain neu bron â chael damwain, neu os byddwch chi'n gweld hynny'n digwydd i rywun arall ar y safle, rhowch wybod i swyddfa'r trefnydd, sydd wedi'i leoli gyferbyn â'r man cofrestru yn y cyntedd.

## TREFNIADAU MEWN ARGYFWNG

Os bydd angen gwagio'r adeilad, dilynwch gyfarwyddiadau staff y digwyddiad, a gadael yr adeilad drwy'r allanfa agosaf.

## CYMORTH CYNTAF

Mae ystafell feddygol yn y lleoliad, gyda staff sy'n gymwys i roi cymorth cyntaf. Os oes angen cymorth meddygol arnoch, mae'r ystafell cymorth cyntaf gyferbyn â'r man cofrestru yn y cyntedd.



# CWESTIYNAU CYFFREDIN

UCAS

- **Oes rhywle i mi gadw fy nghôt a fy magiau?**

Nid oes cyfleusterau ystafell gotiau yn y digwyddiad hwn. Peidiwch â dod â bagiau mawr a bagiau cefn i'r digwyddiad.

- **PA YSWIRIANT SYDD AR WAITH AR GYFER Y DIGWYDDIAD?**

Mae gan y trefnydd yswiriant atebolrwydd gweithwyr a chyhoeddus digonol. Er bod y trefnwyr yn cymryd pob cam posib i ddiogelu eiddo ymwelwyr yn ystod y digwyddiad, nid yw'n gyfrifol am unrhyw golledion na difrod.

Dylai arweinwyr y grwpiau wneud yn siŵr bod ganddynt yswiriant atebolrwydd cyflogwyr a chyhoeddus, yn unol â'r telerau ac amodau archebu.

- **BETH SY'N DIGWYDD I UNRHYW EIDDO COLL?**

Bydd eiddo coll yn cael ei gadw yn Swyddfa'r Trefnydd yn ystod y digwyddiad. Ar ôl y digwyddiad, caiff ei drosglwyddo i'r lleoliad a'i gadw am 14 diwrnod. Ar ôl 14 diwrnod, os nad oes hawliad wedi'i wneud ynglŷn â'r eiddo hwnnw gan unrhyw berson, bydd staff y lleoliad yn ystyried bod yr eiddo wedi'i adael a bod ganddynt yr hawl i'w waredu.

- **ALLA I YSMYGU/FEPIO AR Y SAFLE?**

Mae gan Canolfan Gynadledda Ryngwladol Cymru bolisi llym o beidio ag ysmygu/fepio y tu mewn i'r lleoliad, mae hyn yn cynnwys e-sigarennau.

- **PA DDIOGELWCH FYDD YNO?**

Bydd diogelwch ar gael drwy gydol y digwyddiad. Os oes rhywun wedi dwyn rhywbeth, rhowch wybod i Swyddfa'r Trefnwyr ar unwaith.

- **BLE ALLA I GAEL COPI O'R ASESIAD RISG AR GYFER Y DIGWYDDIAD?**

Mae'r trefnydd wedi cwblhau asesiad risg ar gyfer y digwyddiad a bydd yn cael ei lwytho i fyny i gyfrif enet y sawl sydd wedi archebu ar ran y grŵp.




UCAS

# MANYLION CYSWLLT

## LLEOLIAD

**Canolfan Gynadleddа Ryngwladol Cymru, Y Coldra, Heol Catsash, Casnewydd NP18 1DE**

**01633 410 200**

## MANYLION CYSWLLT

Cyn yr arddangosfa ffoniwch **01242 544 808** neu anfonwch e-bost at [events@ucas.ac.uk](mailto:events@ucas.ac.uk)

## YMHOLIADAU CYFFREDINOL AM Y SAFLE

Bydd llysgenhadon y digwyddiad, a fydd yn gwisgo crysau-t UCAS, hefyd ar gael i roi cymorth a chyngor os oes gennych chi unrhyw ymholiadau

Diolch am gofrestru ar gyfer digwyddiad UCAS Discovery Casnewydd 2026.